Cenn@d

22 Ebrill 2026
Rhifyn 269

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG
a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

# Diolch, Judith

**Cyngor Unedig Undeb Bedyddwyr Cymru yn croesawu'r cyfle i ddiolch yn ffurfiol i'r Parchedig Judith Morris am ei gwasanaeth rhagorol fel Ysgrifennydd Cyffredinol UBC**



Am yr un mlynedd ar ddeg diwethaf, mae Judith wedi bod wrthi yn gwasanaethu ein heglwysi, ein gweinidogion, a'n Cymanfaoedd gydag ymroddiad, gras a chariad. Rydym am gydnabod gymaint yr ydym wedi gwerthfawrogi ei harweinyddiaeth dyner ond effeithiol. Rydym yn ddyledus i Judith am ei hysbryd hael ac am y llawenydd y mae hi wedi'i roi i'r rôl – yn enwedig trwy ei hanogaeth gyson i'r tîm staff a'r teulu Bedyddiedig ehangach.

Mae llawer o eiriau o werthfawrogiad wedi'u mynegi am weinidogaeth Judith yn ein plith, a byddai'n amhosibl eu cynnwys i gyd yma. Byddwn ni'n ei cholli'n fawr ac rydym yn diolch i Dduw am ei galw i'r gwaith hwn ar gyfer y fath amser â hwn. Rydym hefyd yn diolch i'r eglwysi a'r unigolion sydd wedi dangos eu gwerthfawrogiad i Judith. Bydd eu mynegiadau o ddiolchgarwch yn cael eu cyflwyno iddi yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Unedig yn Aberystwyth.

Wrth i Judith ymddeol, gweddïwn am fendith gyfoethocaf Duw arni ac rydym yn ei sicrhau o'n cariad a'n gweddïau parhaus.

### Gair gan olygyddion *Cenn@d*

Fel tîm golygyddol, dymunwn ninnau yn dda i Judith hefyd ar ei hymddeoliad. Bu Judith yn aelod brwd o bwyllgor *Cenn@d* ers ei sefydlu, ac mae hefyd wedi cyfrannu i'r wythnosolyn gyda'i cholofn misol 'O'r Llwyfan'; yn adrodd ar newyddion y teulu Bedyddiedig. Diolch am bob dim, Judith, a phob dymuniad da am ymddeoliad bendithiol a hamddenol, gobeithio.




Sefydlu Menter Chwildro – penodi Delyth Wyn
Tudalen 3

Ann Griffiths – un o ryfeddodau mawr Cymru
Tudalen 7

Seilo'n ffarwelio – Anna Jane Evans yn ymddeol
Tudalen 5

# Diolch Judith: Cyfarchion gan ddau Lywydd yr Undeb

**Dywedodd Rob Nicholls,**
**Llywydd yr Adran Gymraeg:**

Gydag ymddeoliad ein Hysgrifennydd Cyffredinol, JudithMorris, hoffwn fel Llywydd fynegi ein diolchgarwch diffuant iddi fel Undeb am ddeng mlynedd o wasanaeth ffyddlon ac arweinyddiaeth gadarn.


Yn ystod ei chyfnod fel Ysgrifennydd, mae wedi dangos ymroddiad llwyr i genhadaeth Undeb Bedyddwyr Cymru, gan weithio'n ddi-baid er lles ein heglwysi, i feithrin cydweithrediad, ac annog cenhadaeth Gristnogol o fewn ein cymunedau.

Trwy ei doethineb, ei charedigrwydd a'i ffydd, mae wedi bod yn arweinydd sy'n annog eraill i wasanaethu dros y deyrnas. Mae ei chyfraniad wedi gadael dylanwad parhaol ar fywyd yr Undeb, ac mae ei gweledigaeth wedi ein harwain drwy gyfnodau o newid ac adnewyddiad yn ein strwythurau fel Corff.

Diolchwn iddi am ei hegni, ei chalon gynnes, a'r modd y mae wedi bod yn dyst ffyddlon i gariad Crist ym mhob agwedd o'i gwaith.

Dymunwn fendith Duw arni – heddwch, llawenydd, a boddhad iddi yn y sicrwydd o wybod y bu'n was ffyddlon i'r Arglwydd ac yn gyfaill triw i'r Undeb cyfan.

Diolch o galon, Judith, a phob bendith i'r dyfodol.





**Dywedodd Maggie Rich,**
**Llywydd yr Adran ddi-Gymraeg:**

Mae hi'n teimlo'n hirach o lawer nag 11 mlynedd ers i ni eistedd o amgylch y ford yng Nghaerfyrddin yn cyf-weld Judith ar gyfer swydd Ysgrifennydd Cyffredinol UBC.

Yr hyn a'm trawodd yr adeg honno oedd y gwrando gofalus, yr ymateb cytbwys, y bwriad i gysylltu gyda'r person – a gyda'r cwestiwn.

Ers hynny, buom yn gwylio Judith yn tyfu i'r rôl a rhoi stamp ei phersonoliaeth arni. Bu'n llawn gras yn yr amrywiol gyd-destunau y darganfu ei hunan ynddynt, a dyw hi ddim wedi colli'r gallu i fod yn agos atoch chwaith. Rydym wedi derbyn gwir fendith o gael Judith fel cynrychiolwraig yr Undeb ac yn rhywun a fu'n hyrwyddo enw da Undeb Bedyddwyr Cymru.

Diolchwn i Judith am y cyfan y mae hi wedi ei wneud, a gweddïwn am fendith ar y cyfan y bydd hi'n parhau i'w wneud yn enw'r Deyrnas.

## Cynhadledd Fforwm Ffydd

### Cenedlaetholdeb: Cleddyf Daufiniog?

**Dyna fydd thema cynhadledd Fforwm Ffydd eleni, sydd i'w chynnal yn Eglwys Unedig Seilo, Llandudno, ar 5 Mai.**

Y darlithydd gwadd fydd yn trafod y pwnc dan sylw yw'r Parchedig Ddr Rhys Llwyd, Caernarfon, a hynny ar ffurf dwy ddarlith: 'Cenedlaetholdeb a Christnogaeth ddoe a heddiw' a 'Ffydd ac Argyfwng Cenedl yn 2026'.

Mae Rhys Llwyd yn weinidog gydag Undeb y Bedyddwyr yng Nghaernarfon a Dyffryn Nantlle, ac mae ganddo radd yng Ngwleidyddiaeth Cymru ac Athroniaeth Wleidyddol a doethuriaeth ym maes Diwinyddiaeth Gyhoeddus.

Hanfod ei ymchwil ar gyfer y ddoethuriaeth oedd cenedlaetholdeb Gristnogol R. Tudur Jones, ac yn 2019 cyhoedddodd gyfrol yn seiliedig ar yr ymchwil hon, sef *Tynged Cenedl*.

Yn y Fforwm Ffydd eleni, bydd Rhys yn ystyried ac yn archwilio'r gwersi a ddysgwyd o draddodiad Cristnogol Cymru ar draws y canrifoedd a'r hyn sydd gan y rhain i'w ddweud wrthym ni heddiw. Bydd yn eu gwrthgyferbynnu â'r heriau y mae mynegiadau cyfoes o genedlaetholdeb Cristnogol yn eu hamlygu, yn enwedig yng ngoleuni datblygiadau gwleidyddol diweddar yn yr Unol Daleithiau a'r tu hwnt.

Daw'r drafodaeth hon ar adeg arwyddocaol wrth i eglwysi a Christnogion ledled Cymru ymdrin â chwestiynau ynghylch y berthynas rhwng y ffydd Gristnogol, hunaniaeth genedlaethol ac ymgysylltu gwleidyddol yn gyffredinol, o ystyried y lle blaenllaw sydd i wleidyddiaeth yn y byd cyhoeddus.

'Mae'r berthynas rhwng Cristnogaeth a hunaniaeth genedlaethol yn gallu ysbrydoli ymgysylltiad cymdeithasol cadarnhaol, ond hefyd yn gallu achosi peryglon sylweddol, os caiff ffydd ei chlymu'n rhy agos at rym gwleidyddol,' meddai Rhys. 'Archwilio'r tensiwn hwn ydi bwriad y darlithoedd dan sylw, ac estyn cyfle i fynychwyr y Fforwm Ffydd eleni i fyfyrio'n feirniadol ar sut y dylai'r ffydd Gristnogol siapio ymgyrchoedd cyhoeddus mewn cyd-destun gwleidyddol sy'n newid.'

**Bydd y drafodaeth eleni yn fwy perthnasol nag erioed o bosib, o gofio bod 19 Mai 2026 wedi ei ddynodi'n Ddiwrnod Cenedlaethol o Weddi yn yr Unol Daleithiau, gyda gwahoddiad i bobol i ailafael yn eu ffydd Gristnogol yno.**

Gellir cofrestru o 9.15 o'r gloch ymlaen, a bydd y Fforwm ei hun yn dechrau am 10 o'r gloch. Bydd cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod ymhellach yn dilyn y ddwy ddarlith, gyda'r digwyddiad yn dod i ben am 1 o'r gloch.

*Aled Gwyn Job* (Ysgrifennydd Fforwm Ffydd)

# Sefydlu Menter Chwildro

## penodi Delyth Wyn Davies yn Swyddog Cymunedol a Chenhadol

**Nos Sul y Pasg cynhaliwyd cyfarfod arbennig i sefydlu Delyth Wyn Davies yn Swyddog Cymunedol a Chenhadol i ofalaeth eglwysi ardal Chwilog. Mae Delyth wedi treulio 40 mlynedd mewn swyddi enwadol cenedlaethol, gan gefnogi ac annog cydweithio lleol. Bellach, mae hithau wedi ymgymryd â her newydd i roi llawer o'i gwybodaeth a'i phrofiad ar waith yn lleol. Treuliodd flynyddoedd yn gweithio i Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel Swyddog Gwaith Plant, wedi'i lleoli yng Ngholeg y Bala, gan dreulio cyfnod hefyd yn gweithio i Ofalaeth Berea Newydd ym Mangor. Bu hefyd yn gydlynydd y genhadaeth i BMS World Mission dan nawdd enwad y Bedyddwyr, ac yna'n gydlynydd hyfforddiant i'r Eglwys Fethodistaidd.**




**Nod Menter Chwildro yw galluogi'r eglwysi i estyn allan i'r gymuned ehangach. Cafodd ei chomisiynu i'r gwaith newydd gan y Parchg Carwyn Siddall. Dyma rannu ychydig o'i gweledigaeth:**

Mae'n fraint i mi gyflwyno fy hun fel Gweithiwr Cymunedol a Chenhadol i Fenter Gymunedol Chwildro yn dilyn y Gwasanaeth Comisiynu a gynhaliwyd fel rhan o Wasanaeth Sul y Pasg yn Eglwys Siloh, Chwilog.

Cafodd y swydd ei chreu yn dilyn cais llwyddiannus am grant gan Undeb yr Annibynwyr o dan y cynllun Cefnogi Cyfle. Pwrpas y grant yw annog pobl i fod yn flaengar i wneud gwahaniaeth o fewn cymunedau eu heglwysi a thu hwnt. Bwriad Menter Gymunedol Chwildro yw creu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd drwy amrywiol weithgareddau sy'n creu ymdeimlad o berthyn a pherthynas ac yn cwrdd ag anghenion pobl o fewn y gymuned. Y gobaith yw y bydd y fenter yn cynnig rhywbeth i bobl o bob oed, o'r ieuengaf i'r hynaf, ac yn gwneud gwahaniaeth yn eu bywydau.

Mae'r syniad o eglwys yn estyn allan at ei chymuned i rannu cariad Iesu Grist mewn ffyrdd gofalgar ac ymarferol wedi bod yn agos iawn at fy nghalon i erioed. Wedi blynyddoedd lawer o weithio mewn swyddi cenedlaethol mewn gwahanol enwadau yng Nghymru a thu hwnt, yn annog disgyblion Iesu Grist i estyn allan i'w cymuned leol mewn amrywiol ffyrdd, rwyf bellach yn cael y cyfle i ddaearu'r hyn rwyf wedi ei ddysgu mewn eglwys leol. A fedrwch chi ddim



*Delyth yn cael ei chomisiynu i'r gwaith yn Siloh, ac yn derbyn deheulaw cymdeithas gan y Parchg Carwyn Siddall*

bod yn fwy lleol na hyn – rydw i'n byw ychydig ddrysau i fyny o'r capel!

Does gan yr un ohonom syniad sut yn union y bydd hyn yn edrych wrth i'r fenter ddatblygu. Pan wnaed y cais am grant Cefnogi Cyfle rhestrwyd nifer o syniadau o weithgareddau posibl ac mae gen i fy syniadau fy hunan hefyd. Ymhlith y rhain y mae Lle cynnes, Clwb darllen, Caffi galar, Clwb gwaith cartref/adolygu, Gwaith ieuenctid, Gweithgaredd plant 7–11 oed, a Chlwb Dysgwyr.


Ond ofer fyddai ceisio gwneud y rhain os nad yw'r angen amdanynt yn bod. Gan mai cynllun cymunedol yw hwn, mae angen eich syniadau chi hefyd, yn aelodau'r eglwys a'r ofalaeth, yn gyfeillion ac yn aelodau o'r gymuned yn Chwilog ac yn yr ardal, er mwyn i ni ddirnad beth sydd wir ei angen i fod o fudd i'r gymuned. Beth yw eich barn chi ar sut all y fenter wasanaethu'r gymuned rydym yn rhan ohoni?

Cynhelir cyfarfod arbennig i lansio'r fenter a thrafod syniadau am weithgareddau yn Festri Siloh nos Lun, 27 Ebrill, am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb – does dim rhaid bod yn aelod mewn capel i gyfrannu eich syniadau a chymryd rhan. Yn ogystal, os teimlwch fod gennych amser i'w roi i wirfoddoli fel rhan o'r fenter rhowch wybod i mi, gan nodi pa faes sydd o ddiddordeb i chi. Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â chi a gwasanaethu'r gymuned efo'n gilydd.



# Gwobr Oes Weithredol Stenberg 2026 yn cael ei chyflwyno i Wynford Ellis Owen

**Enwebwyd Wynford Ellis Owen, arloeswr adferiad, cynghorydd a sylfaenydd y Stafell Fyw, yn un o enillwyr clodwiw Gwobr Bywyd Gweithredol Sternberg y *Times* 2026.**



Mae'r wobr yn cydnabod cyfraniad eithriadol i fywyd cyhoeddus a'r gymuned a wnaed gan berson pan fydd dros 70 oed. Sefydlwyd y wobr yn 2008 gan Syr Sigmund Sternberg mewn partneriaeth â'r Times, ac mae'r gwobrau'n dathlu unigolion o'r oedran hwn sydd, yn y blynyddoedd hynny, wedi gwasanaethu, arloesi a chael effaith mewn modd arbennig iawn.

Am dros ddegawd, bu Wynford Ellis Owen yn un o leisiau mwyaf dylanwadol Cymru o safbwynt adfer o ddibyniaeth. Wedi gyrfa glodwiw o ddeugain mlynedd ym myd y theatr a'r teledu fel ysgrifennwr, actor a chyfarwyddwr, ailhyfforddodd fel cynghorydd ym maes dibyniaeth. Aeth ymlaen i sefydlu'r Stafell Fyw, canolfan adfer dan arweiniad cyfoedion, i gefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddibyniaeth yng Nghaerdydd a thu hwnt.

Dan ei arweiniad, daeth y Stafell Fyw yn ganolfan adfer arloesol o fewn y gymuned, gan gynnig cymorth tymor hir, cwnsela a gofal i bobl sy'n gwella o ddibyniaeth ar alcohol a chyffuriau, yn ogystal â gamblo, hunan-niwed ac ymddygiad niweidiol arall. Roedd ei waith yn herio'r stigma o gwmpas dibyniaeth ac yn dangos pŵer cariad, cymuned a chefnogaeth cyfoedion mewn adferiad hirdymor.

Heddiw, mae Wynford yn parhau i weithredu fel cynghorydd cwnsela arbenigol i'r Stafell Fyw a'i sefydliad cysylltiol, gan helpu i ymestyn gwasanaethau adfer ar draws Cymru a rhoi cymorth i glerigwyr a gweithwyr meddygol drwy raglenni cynghori penodol. Mae hefyd yn cynnal encilion a hyfforddiant ar ddibyniaeth ac adferiad.

Dyma sylw Wynford Ellis Owen am y wobr:

"Mae'n anrhydedd anferth imi dderbyn y gydnabyddiaeth hon. Mae adferiad yn bosibl i bawb, a dwi wastad wedi credu bod pobl yn gwella orau pan fyddan nhw'n derbyn cariad, cefnogaeth a gobaith. Mae'r wobr hon yn perthyn nid yn unig i fi ond i bawb sydd wedi bod yn rhan o gymuned y Stafell Fyw dros y blynyddoedd."

Bydd Wynford yn cael ei gydnabod yn ffurfiol mewn derbyniad yn 11 Stryd Downing ar 23 Ebrill 2026 gan Michael Sternberg, Cadeirydd Sefydliad Elusennol Syr Sigmund Sternberg.

Mae'r gydnabyddiaeth i Wynford Ellis Owen yn adlewyrchu nid yn unig ei siwrnai adfer bersonol ond hefyd ei gwaddol yn creu llwybrau gobaith, urddas a chefnogaeth i filoedd o bobl ar draws Cymru.


Ydych chi neu berson arall yn cael trafferth ymdopi?

Ydych chi angen help?

Ydych chi'n chwilio am atebion ysbrydol i broblemau ysbrydol?

Mae **Cynnal** yn cynnig gwasanaeth cwnsela dwyieithog yn rhad ac am ddim, a hynny ledled Cymru. Cynigir y gwasanaeth i glerigion, gwenidogon yr efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd. Mae **Cynnal** yn delio â phroblemau o bob math.

Edrych ar yr unigolyn yn holistaidd a wna **Cynnal** - yn gorff, meddwl ac enaid. Rydym yn cydnabod bod dimensiwn ysbrydol i fywyd, a phan yn briodol byddwn yn eich cyfeirio at eraill am arweiniad ysbrydol.

Os oes unrhyw beth yn eich poeni, cysylltwch. Rydym ni yma i'ch helpu.

Gallwch ffonio **Cynnal** am ddim os am wybodaeth, cyngor neu gwnsela cyfrinachol,
**Ffoniwch ar 0779 646 4045**

**nid chi yw'r unig un**

Ydych chi'n teimlo'n amherffaith, yn ddiffygiol neu ydych chi'n gwneud camgymeriadau? Mae'n iawn bod felly – dyna sy'n ein gwneud ni'n ddynol...



**rydym ni yma i h elpu.**

Os ydych chi neu rhywun agos yn wynebu problemau, rydym ni yma i'ch helpu. Ffoniwch ni nawr ar **07796 464 045** neu anfonwch ebost at **wynford@recovery-council.org**

**www.cynnal.uk**

CARE Y CYNGOR AR ALCOHOL A CHYFFURIAU ERAILL ELUSEN AR GYFER DIBYNIAETH, ADFERIAD A GALLUOGI | THE COUNCIL ON ALCOHOL AND OTHER DRUGS THE CHARITY FOR ADDICTION, RECOVERY AND EMPOWERMENT

cynnal CHURCH COUNCELLING SERVICE WALES GWASANAETH CYNGHORI EGLWYSI CYMRU

# Seilo'n ffarwelio

Mae oedfa Sul y Pasg yn arbennig ym mhob capel ac eglwys, ond i aelodau Seilo eleni dyma'r Sul roeddem yn ffarwelio efo'n gweinidog, y Parch. Anna Jane Evans. Dydy hi ddim yn mynd yn bell, ond mae hi'n ymddeol fel ein gweinidog!

Roedd y gwasanaeth bore Sul yn fwrlwm o weithgarwch, a'r capel yn rhwydd lawn. Bedyddiwyd pedwar o blant: Swyn, Tomos, Rhodri ac Edryd, a hyfryd oedd eu gweld yn cymryd rhan yn y gwasanaeth gyda'u ffrindiau yn yr ysgol Sul. Bu Anti Ann a'r athrawon yn eu paratoi at 'syrpréis' i Anna Jane, a chafwyd perfformiad clodwiw ganddynt i ddiolch iddi am ei chyfeillgarwch a'i harweiniad.

Yn dilyn y cymun, oedd yn cloi'r gwasanaeth, roedd gwahoddiad i bawb ymuno yn y Parti Ffarwél draw yn y Theatr wedyn! Yno, roedd lluniaeth wedi'i baratoi gan y chwiorydd a chlamp o gacen arbennig iawn wedi'i gwneud gan Eurwen, sy'n aelod ffyddlon a dawnus yn Seilo.




Yn ystod hwyl a rhialtwch y parti, cafodd Arolygydd yr Ysgol Sul, Ann Williams, gyfle i gyflwyno rhoddion gan y plant, sy'n meddwl y byd o Anna Jane, a mynegi ei gwerthfawrogiad am gyfnod hapus o gydweithio. Yna, fe gyflwynodd Llywydd y Mis yntau, Idwal Williams, dysteb gan yr aelodau, ynghyd â geiriau caredig a dymuniadau gorau Eglwys Seilo i Anna Jane, a phob dymuniad da iddi ar ei hymddeoliad. Yn wir, roedd Sul y Pasg yn Sul arbennig iawn yn Seilo!

*Edwina Morgan*



## Y Weinidogaeth Iacháu

**Cynhelir Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu**

**18–21 Mai 2026**
yng
Nghanolfan Gristnogol Cefn Lea,
Dolfor, ger y Drenewydd, Powys, SY16 4AJ



Mae ychydig o le ar ôl
Am ragor o fanylion, cysyllter â:
nerysrowlands@hotmail.co.uk
cyn dechrau Mai

Dewch i fwynhau pedwar diwrnod llawn bendithion, a chyfle i wneud ffrindiau newydd.
Y gost yw £160 yr un – rhannu ystafell;
ystafell sengl – £180

## CYFARFOD BLYNYDDOL SENANA AGM

'Gadewch i'r rhai mae'r ARGLWYDD wedi'u gollwng yn rhydd ddweud hyn...' Salm 107:2a

'Let the redeemed of the LORD tell their story.' Psalm 107:2a



06/05/26

CAPEL EBENESER, STRYD MEYRICK, DOLGELLAU, LL40 1LN, 14:00

AR ÔL Y GWASANAETH BYDD TE YN Y LLYFRGELL RYDD
PRIS TE: £6


TEA TO FOLLOW IN THE FREE LIBRARY
COST: £6

Cysylltwch â/ Contact Hazel Williams-Jones cyn y 24ain o fis Ebrill/ before 24th April

hazelwilliamsjones@gmail.com
07879282258
26 Erw Goch, Rhuthun, LL15 1RR

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

## Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 19

## Protest Mahla, Noa, Hogla, Milca, Tirtsa

Safwn yma, nid fel cysgodion crynedig, ond fel merched ein tad, Seloffehad. Rydym yn gymeriadau gwahanol i'n gilydd, yn unigolion, ond heddiw down yn unfryd o'ch blaen, gan gydio yn nwylo ein gilydd yn ddewr.

Aeth ein tad i'r llwch, fel yr awn ni i gyd yn ein tro. Ond oherwydd na chafodd fachgen i'w alw'n fab, bydd enw ein tad a'n teulu'n diflannu. Rhannwn, fel chwiorydd, yr un gwaed a'r un cyfenw. Peth prydferth yw enw; all neb ei ddwyn oddi arnom, na'i ddifwyno, ac ni all neb ei newid.

Dywedwch, felly, onid yw'r gyfraith yr ydym mor barchus ohoni yn gyfraith i bawb? Ydych chi'n disgwyl inni gydymffurfio â'r drefn haearnaidd hon fel pe na bai ein teulu ni ddim yn cyfri? Pam mai dim ond drwy fechgyn y caiff llinach ei pharchu? Pam na chawn ni, ferched, ein cydnabod fel aelodau cyflawn o'n teulu ein hunain?

Gwrthodwn fod yn dawel. Ymwrthodwn â'r arfer o fod yn daeog fel merched. Nid gwan ydym, ond cryf. Nid israddol ydym, ond hafal. Ni roddwn ichi'r caniatâd i ddiddymu ein henw. Nid dod yma'n wrthryfelgar wnawn ni heddiw, ond i roi ein rhesymeg gerbron yn deg. Ddown ni ddim o'ch blaen yn amddiffynnol, ond gyda chwestiwn sydd angen ei ateb.

Gofynnwn am yr hawl i etifeddu ystad ein tad, a hynny fel plant cyflawn iddo. Nid hunanoldeb barus ydyw, nid balchder oriog, ond cyfiawnder. Dydyn ni ddim yn gofyn am unrhyw beth sy'n fwy na'n haeddiant. Dyma ddylai ddigwydd mewn byd teg. Os nad yw'r gyfraith eto wedi cydnabod merched, yna boed i hynny ddechrau heddiw. Os yw traddodiad wedi ein hepgor, yna ymbiliwn yma nawr am newid.

Credwn y dylai'r gyfraith esblygu pan fo angen hynny. Credwn y dylai'r bobl sy'n arwain ar faterion cyfreithiol fod yn ddigon aeddfed i weld pan fo angen newid. Os oes angen inni godi ein lleisiau a gofyn i'r gyfraith ei hun ein clywed, yna fe wnawn hynny!

Gofynnwn am gael ein gweld. Oherwydd rydym yma, o'ch blaen, yn bobl fyw o gig a gwaed. Credwn nad yw Duw yn gwahaniaethu rhyngom fel gwryw a benyw. Credwn mai hafal ydym oll a bod Duw yn ein cydnabod ni, ferched, yn union fel y cewch chwithau, ddynion, eich cydnabod. Ef yw ein Duw ni a'ch Duw chi. Un ydym yn ein hymlyniad at y pethau gorau a phopeth da.

Safwn yma felly o'ch blaen – yn ofnus ond yn gadarn. Os yw Duw yn gwrando, gadewch iddo glywed hyn: nid yw cyfiawnder yn dibynnu ar rywedd person. Nid yw moesoldeb yn gweld unrhyw wahaniaeth rhwng person a pherson. Nid oes raid ymlynu at ddiffinio pawb. Gofynnwn am degwch sy'n fwy na thraddodiad. Rydym angen teimlo ein bod yn perthyn ac rydym angen yr hawl i dderbyn ein hetifeddiaeth. Os bydd y foment hon yn newid y gyfraith am byth, yna hoffem i hyn gael ei gofio: gwirionedd sy'n newid pethau, dewrder sy'n symud y rhwystrau; gyda'n gilydd rydym yn gryfach. Weithiau mae wirioneddol angen codi llais!

Merched ein tad, Seloffehad, ydym ni, a heddiw gofynnwn am wrandawiad teg ac am yr hawl ei gael ein cydnabod â pharch.

**Holi**

- Mae'r chwiorydd yn herio'r gyfraith yn ddewr. A oes rhai tebyg sy'n herio'r drefn heddiw?
- Pa broblemau – economaidd, cymdeithasol, cyfreithiol – yn ein hoes ni sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhywedd? Beth sydd gan ein heglwysi i'w ddweud ar y pwnc?
- Mae'r merched yn y stori yn ymbilio am gael perthyn. Sut mae trafodaethau cyfredol am berthyn a chynhwysiant yn adleisio protest merched Seloffehad?
- Mae eu protest yn newid pethau. Beth yw eich barn chi ar esblygu, a sut mae modd cael cydbwysedd rhwng parchu traddodiadau da a diwygio cyfundrefnau pan fo angen hynny? Sylwch, o ran diddordeb, i ba gyfeiriad y mae eich sgwrsio'n mynd â'r drafodaeth.
- 'Gyda'n gilydd rydym yn gryfach'... pa mor bwysig yw bod yn gydweithredol fel Cristnogion heddiw? Oes enghreifftiau o gydweithredu sydd wedi / yn gwneud gwahaniaeth o fewn eich eglwys neu eich cymuned ffydd?

**Gweddi**

Dduw trugarog, atgoffa ni pa mor bwysig yw codi llais yn erbyn anghyfiawnder. Symud ni o'n diymadferthedd. Gwna ni'n bobl sy'n sefyll dros yr hyn sy'n iawn, hyd yn oed pan fo hynny'n anghyfleus neu'n anodd inni. Agor ein calon i ymateb i'r hyn sy'n mynd ymlaen o'n cwmpas heddiw a gwneud hynny gyda gonestrwydd didwyll. Helpa ni i esblygu'n ddoeth ac adeiladu cymunedau lle mae pawb yn perthyn. Boed inni weithio'n gydweithredol fel plant i Ti er hyrwyddo daioni a chariad. Amen.

*Sian Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu**

**Radio Cymru**
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 26 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Delyth Wyn Davies, Chwilog

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 26 Ebrill am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Fflur Bowen a myfyrwyr Aberystwyth

**S4C**
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 26 Ebrill, am 18.45yh**
Gwasanaeth y Cablyd
Nia Roberts fydd yng Nghadeirlan Llanelwy ar gyfer Gwasanaeth y Cablyd Brenhinol.

# Ann Griffiths: un o ryfeddodau mawr Cymru

## E. Wyn James, Caerdydd

Ann Griffiths, yn ddi-os, yw un o ryfeddodau mawr y diwylliant Cymraeg. Mae beirniaid llenyddol gwybodus a chyfrifol yn ei gosod ymhlith pymtheg bardd mwyaf y Gymraeg dros holl 1,500 o flynyddoedd ein barddoniaeth, o ddyddiau Aneirin a Thaliesin i lawr at heddiw. Tyfodd yn eicon cenedlaethol. Bu'n destun dramâu, nofelau a cherddi, ynghyd ag astudiaethau dirif. Fe'i cyfrifir yn brif emynydd Cymru, ochr yn ochr â Williams Pantycelyn. At hynny, mae awdurdodau rhyngwladol ar ysbrydoledd ac ar lenyddiaeth grefyddol yn ei hystyried yn fardd o bwys byd-eang, a rhai ohonynt wedi dysgu'r Gymraeg er mwyn astudio ei gwaith.

Mae hynny oll yn gwrthgyferbynnu'n drawiadol â safle cymdeithasol di-nod Ann yn ystod ei bywyd. Fe'i ganed 250 o flynyddoedd yn ôl, yn 1776, ym mhlwyf gwledig Llanfihangel-yng-Ngwynfa yng ngogledd sir Drefaldwyn. Hi oedd y pedwerydd o bum plentyn John a Jane Thomas o fferm Dolwar Fach, sydd tua saith milltir i'r de-orllewin o dref farchnad Llanfyllin. Bedyddiwyd Ann yn Eglwys Llanfihangel-yng-Ngwynfa ar 21 Ebrill 1776 – a thybed a oedd ei rhieni braidd yn siomedig mai merch ydoedd, am fod ganddynt ddwy ferch yn barod, a dim ond un mab?

Yn Nolwar Fach y byddai Ann yn byw ar hyd ei bywyd byr. Daeth yn feistres Dolwar yn dilyn marwolaeth ei mam yn Ionawr 1794, am fod ei chwiorydd hŷn wedi gadael cartref erbyn hynny. Bu farw ei thad ymhen deng mlynedd wedyn, yn Chwefror 1804. Yna, yn Hydref 1804, priododd Ann â Thomas Griffiths, un o'i chyfoedion o blwyf cyfagos Meifod. A dyna pam y galwn ni hi'n 'Ann Griffiths', er mai 'Nansi Thomas' ydoedd i'w chydnabod yn gyffredinol yn ystod ei hoes.

Daeth Thomas Griffiths i fyw at Ann a'i brawd di-briod, John, yn Nolwar Fach. Ond yna, yn Awst 1805, bu farw Ann yn 29 oed, yn sgil geni merch fach, Elizabeth, a aned ar 13 Gorffennaf. Claddwyd Elizabeth ar 31 Gorffennaf, a chladdwyd Ann hithau ar 12 Awst ym mynwent Eglwys Llanfihangel-yng-Ngwynfa, yr eglwys lle y'i bedyddiwyd yn blentyn a lle y priododd.

Er bod Ann a'i theulu yn aelodau eithaf amlwg yn eu cymuned, fel yr awgrymais, rhai digon di-nod oeddynt y tu allan i'r cylchoedd hynny. Nid oedd Ann yn ddigon pwysig i lun ohoni gael ei dynnu, ond gallwn gasglu ei bod yn ferch dalach na'r cyffredin, a bod ganddi wallt tywyll, talcen lled uchel, a thrwyn ychydig yn fwaog. Dywedir ei bod yn eithaf gwelw ei phryd a'i gwedd, ond bod ganddi fochau gwridog a llygaid disglair. Bu'n eithaf gwan ei hiechyd ar hyd ei bywyd; ond os oedd yn fregus o gorff, roedd yn gryf o feddwl a chymeriad. Roedd yn un fywiog, unplyg ac angerddol, yn siriol, direidus a braidd yn fyrbwyll. Roedd hefyd yn arweinydd ymhlith ei chyfoedion, a chanddi feddwl treiddgar a chof eithriadol.

Dechreuodd Methodistiaeth ledu'n arwyddocaol ar draws gogledd Cymru wedi i Thomas Charles ymsefydlu yn y Bala yn yr 1780au a dod yn brif arweinydd y Methodistiaid yn y gogledd. Erbyn canol yr 1790au roedd dylanwad y mudiad Methodistaidd wedi dechrau effeithio o ddifrif ar ardal Ann Griffiths. Cafwyd adfywiad ysbrydol yno yr adeg honno, a'r canlyniad oedd i'r rhan fwyaf o deulu agos Ann ddod yn eu tro yn Fethodistiaid. Daeth nifer ohonynt, gan gynnwys Ann, yn aelodau o seiat y Methodistiaid a fyddai'n cyfarfod ym Mhontrobert wedi i gapel gael ei godi yno yn 1800 i fod yn gartref i'r seiat. Dyna 'Hen Gapel John Hughes' fel y'i gelwir heddiw.

Dechreuodd taith Ann tuag at ymuno â seiat y Methodistiaid pan glywodd bregeth yn Llanfyllin adeg y Pasg 1796. Yn dilyn y bregeth honno, bu hi am rai misoedd yn ymboeni'n fawr am ei chyflwr ysbrydol ac yn anesmwyth iawn ei chydwybod. Y diwedd fu iddi fentro i gyfarfodydd y Methodistiaid. Effaith



*Penddelw o Ann Griffiths yn ei Chapel Coffa yn Nolanog*
*Llun: Wicipedia*

hynny ar y dechrau oedd dyfnhau ei hymwybyddiaeth o'i phellter oddi wrth Dduw, ei bod yn methu cyrraedd ei safonau perffaith, a'i bod o'r herwydd o dan ei gondemniad. Ond yna, daeth i weld fod Iesu Grist – yr Un gogoneddus a oedd yn Dduw ac yn ddyn yn yr un Person – wedi cymryd cosb ei phechod hi arno Ef ei Hun trwy farw ar y groes, gan agor 'ffordd gyfreithlon' iddi allu dod, trwy ffydd, i 'hedd a ffafor gyda Duw'.

Gosodai'r Methodistiaid bwyslais mawr nid yn unig ar gredu ffeithiau'r ffydd Gristnogol uniongred, ond hefyd ar ddod i brofiad ohonynt. Rhaid oedd teimlo gwirioneddau'r ffydd yn y galon yn ogystal â'u credu yn y pen, a dod trwy ffydd i berthynas bersonol â Duw. Ac fe gafodd Ann brofiadau ysbrydol a oedd yn rhai arbennig o ddwys, hyd yn oed mewn cyfnod o ddiwygiad. Un 'hynod' ei phrofiadau ydoedd, meddai ei chyfaill a'i chofiannydd, John Hughes, Pontrobert, ac fe gytunai Thomas Charles, ei phrif fentor.

Roedd Ann wedi bwriadu cadw dyddiadur i gofnodi ei phrofiadau, ond yn lle hynny dechreuodd lunio penillion mewn cyfnodau o fyfyrdod dwfn, a'r rheini'n crisialu ei phrofiadau a'i chanfyddiadau crefyddol. Gallwn ystyried y penillion hynny, felly, fel petaent yn gofnodion mewn dyddiadur ysbrydol. Er y byddai'n

rhannu rhai ohonynt â chyfeillion, fe'u lluniwyd gan Ann at ei defnydd defosiynol hi ei hun, heb fwriad ganddi iddynt gael eu defnyddio'n gynulleidfaol.

Ychydig dros 70 o benillion o'i gwaith sydd wedi goroesi – o gymharu â thua mil o emynau o waith Williams Pantycelyn! Ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu diogelu i ni oherwydd i Ruth Evans, morwyn Dolwar Fach a *confidante* ysbrydol i Ann, eu cofio a'u hadrodd i'w gŵr, John Hughes, Pontrobert, iddo eu hysgrifennu i lawr. Ac fe roddodd ef gopïau i Thomas Charles, iddo drefnu iddynt gael eu hargraffu.

Dechreuais yr ysgrif hon trwy alw Ann yn 'un o ryfeddodau mawr y diwylliant Cymraeg'. Ac yn briodol ddigon, synnu a rhyfeddu yw un o brif nodweddion ei gwaith. Iesu Grist yw gwrthrych mawr ei chân. Nid amhriodol yn wir fyddai disgrifio ei phenillion yn ganeuon serch iddo Ef. Ef hefyd yw ffynhonnell y paradocsau sydd mor amlwg yn ei gwaith ac sy'n rhan mor greiddiol o'i meddwl a'i mynegiant. A thrwy'r cyfan, cawn Ann yn boddi mewn syndod wrth fyfyrio ar ryfeddod y Person dwyfol a oedd ar yr un pryd yn ddyn.

Fe'i cawn hefyd yn rhyfeddu 'â mawr ryfeddod' at waith achubol y Person rhyfeddol hwnnw. Dyna a agorodd y ffordd iddi hi, bechadur, ddod trwy ffydd i berthynas gariadus â'r Duw mawr, pur a sanctaidd. Ac nid hynny'n unig, ond gwelwn Ann yn hiraethu am gael treulio tragwyddoldeb



*Portread o Ann Griffiths, gan artist anhysbys*
*Llun: Parth Cyhoeddus (Wicimedia)*

yn ei gwmni, gan nofio yno mewn 'môr o ryfeddodau' a threiddio ymhellach ac ymhellach 'i ddiderfyn ryfeddodau iechydwriaeth Calfari'.

Crynhoir y cyfan, mewn gwirionedd, yn yr adnod a ddewisodd John Hughes, Pontrobert, ar gyfer ei bregeth angladdol iddi, a draddododd yng nghapel y Methodistiaid ym Mhontrobert ar y Sul wedi i Ann gael ei chladdu: 'Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw' (Philipiaid 1:21). Neu fel y dywedodd Ann yn yr unig lythyr sydd gennym yn ei llaw hi ei hun,

> 'Hyn sydd yn fy llonni fwyaf o bob peth y dyddiau hyn – nid marw ynddo ei hun, ond yr elw mawr sydd i'w gael trwyddo: cael gadael ar ôl bob tueddiad croes i ewyllys Duw, gadael ar ôl bob gallu i ddianrhydeddu deddf Duw, bob gwendid yn cael ei lyncu i fyny gan nerth, cael cydymffurfiad cyflawn â'r gyfraith, yr hon sydd eisoes ar ein calon, a mwynhau delw Duw am byth.'

**Mae cyflwyniad manylach i fywyd a gwaith Ann, ynghyd â thestun ei hemynau a'i llythyrau, ar Wefan Ann Griffiths: https://www.anngriffiths.caerdydd.ac.uk/index.html**

Pwyllgor Sasiwn Cenhadol Chwiorydd y Gogledd

# Dathliad Cenhadol

## Capel y Rhos,



Llandrillo yn Rhos (LL28 4FB)

Dydd Iau, Mai 7fed 2026

2.00yp

**CROESO CYNNES I BAWB.**

**Siaradwr gwadd: Y Parch Owain Davies, Gweinidog Gofalaeth Nant Conwy**

**Thema newydd Pwyllgor y Chwiorydd am 2026:**

**'Gras ein Harglwydd Iesu Grist'** 2 Corinthiaid 13:13

gwahoddir chwi i ymuno am baned ar ôl y cyfarfod.

I holi am wybodaeth pellach cysylltwch gyda: Gwenith Jones (Ysgrifennydd) 01352 756038 neu Eirian Roberts (Swyddfa'r Chwiorydd) 01678 520065

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru
Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.